Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU
THE BUSINESS OF RECYCLING WALES
WRAP CYMRU

# Astudiaeth Achos Ysgol Gyfun Porthcawl

## Cyflawni Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle mewn Ysgolion Uwchradd

Mawrth 2026 | Circulogic

Ysgol Gyfun Porthcawl
Porthcawl Comprehensive School

Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU
THE BUSINESS OF RECYCLING WALES
WRAP CYMRU

# Cyflwyniad

Mae Ysgol Gyfun Porthcawl yn ysgol gydaddysgol gyda thua 1200 o ddisgyblion 11-18 oed. Mae tua 140 o staff yn cael eu cyflogi yn yr ysgol ac mae 250 o ddisgyblion yn y Chweched Dosbarth. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu dull cyson o roi Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle ar waith, gyda chefnogaeth gan yr uwch arweinyddiaeth, ynghyd â thîm safle a rheolwr gweithrediadau ymroddedig. Mae'r astudiaeth achos hon yn rhoi crynodeb o’r dull a fabwysiadwyd, y gwersi a ddysgwyd ac enghreifftiau o arfer da.

Ysgol Gyfun Porthcawl
Porthcawl Comprehensive School

Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU

THE BUSINESS OF RECYCLING WALES

WRAP CYMRU

## Sefyllfa

Ar ôl ymuno â'r ysgol ym mis Awst 2024, roedd y rheolwr gweithrediadau newydd ei benodi yn wynebu'r her o gyflwyno Ailgylchu yn y Gweithle o fewn wythnosau. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno set newydd o 133 o finiau olwynion ar draws y safle a gwneud newidiadau i arferion rheoli gwastraff a fu ar waith am amser hir. Roedd angen newid diwylliannol, gyda phawb wedi ymrwymo i addasu i'r dull newydd

## Ateb

Cyflwynwyd y dull Ailgylchu yn y Gweithle newydd ym mis Medi 2024, gan gynnwys:

- Cael gwared â biniau o ystafelloedd dosbarth
- Cyflwyno set newydd o finiau mewn lliwiau cyson – wedi'u gosod fel stondinau biniau safonol (dan do a'r tu allan)
- Defnyddio bagiau leinio clir ym mhobman
- Casgliadau sbwriel dyddiol gan dîm y safle ac arweinyddiaeth trwy esiampl

## Effaith

Canlyniad y newidiadau yw profiad ailgylchu cyson ym mhobman, safle glân a thaclus ac ymrwymiad i wneud y peth iawn o'r top i'r gwaelod. Er bod cyflwyno biniau newydd yn fuddsoddiad sylweddol ac nad yw bagiau leinio clir yn rhad, mae biliau casglu gwastraff ac ailgylchu misol wedi gostwng tua 33%. Roedd cyfradd ailgylchu alldro blwyddyn 1 dros 50%

# Sefyllfa

Mae'r ysgol yn y sefyllfa anarferol o fod ag ymreolaeth lwyr dros swyddogaethau cymorth. Mae timau glanhau ac arlwyo yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol drwy'r ysgol, gan symleiddio cyfathrebu a newidiadau polisi.

Gan mai dim ond 50m o lan y môr mae’r ysgol, mae gwynt yn broblem fawr. Mae angen i finiau fod yn sownd, a chadw sbwriel dan reolaeth yn ddyddiol. Fel gyda phob ysgol, mae’r math o wastraff yn amrywio dros amser, e.e. wrth glirio ar ddiwedd tymor. Mae angen dull rhagweithiol i gynnal glendid ac osgoi croniadau gwastraff.

**Darlun:** Enghraifft dan do o'r system 3 bin a ddefnyddir ar draws y safle mewn ardaloedd 'dim bwyd'

Mae heriau’n parhau, y rhan fwyaf ohonynt yn weithredol eu natur, gan gynnwys:

- Dod o hyd i ateb cost-effeithiol ar gyfer prynu bagiau leinio clir, yn enwedig ar gyfer y biniau olwynion mewnol (140 litr). Nid yw'r bagiau leinio presennol yn ffitio'n dda ac maen nhw'n anodd eu rhoi’n sownd yn y bin.
- Cadw golwg ar gontractwr y gwasanaeth casglu ac anfonebu, gan sicrhau bod casgliadau a fethwyd a phroblemau mynediad yn cael eu cadw i'r lleiafswm
- Sicrhau bod defnyddwyr achlysurol y safle, gan gynnwys y rhai sy'n llogi'r cyfleusterau chwaraeon a theatr, yn ailgylchu'n gywir.



# Ateb – biniau

Defnyddir dull clir a chyson ar draws y safle cyfan ar gyfer yr holl gynwysyddion ac arwyddion.  Mae hyn yn hybu dealltwriaeth gyffredin o ba ddeunyddiau sy'n mynd ble ymhlith staff, disgyblion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae stondinau ailgylchu wedi'u gwasgaru'n dda, o fewn golwg ac wedi'u llywio gan asesiad o symudiadau disgyblion.

Defnyddir sachau clir fel bagiau leinio ar gyfer pob bin fel y gellir gweld problemau gyda rhoi'r eitemau anghywir ynddynt. Mae'r biniau allanol i gyd wedi'u gosod yn sownd ar waliau i osgoi cael eu symud gan y gwynt a chael eu symud heb awdurdod, ac mae bagiau leinio cael eu cadw'n sownd gan ddefnyddio cordiau bynji.

Mae glanhawyr yn symud sachau o finiau mewnol i'r compownd(iau) gwastraff allanol gyda chymorth gan dîm gweithrediadau'r safle pan fo angen. Mae gofalwyr yn gwagio'r biniau allanol, felly mae llinell gyfrifoldeb glir ar gyfer rheoli gwastraff mewnol ac allanol.


**O'r chwith i'r dde, o'r top i'r gwaelod:**

- System biniau allanol gyda chynllun labelu a lliwiau cyson gyda bagiau leinio clir yn cael eu defnyddio drwyddi draw
- System biniau mewnol gyda 'doli' glas symudol ategol wedi'i archebu gan athrawon i gefnogi clirio'r ystafelloedd dosbarth (papur a WEEE bach); bydd gofalwyr yn eu harllwys a'u didoli
- Lleoliadau biniau allanol wedi'u hoptimeiddio yn ôl symudiadau disgyblion
- Mae pwysau wedi'u bolltio i gaeadau biniau allanol fel nad ydyn nhw'n cael eu chwythu ar agor yn y gwynt
- Defnyddir trolïau glas hefyd i gasglu a symud WEEE bach ar wahân ar y safle
- Biniau sbwriel hŷn (allanol) yn aros i gael eu defnyddio at ddiben newydd / eu hail-frandio a'u defnyddio ar gyfer digwyddiadau (lleoliad dros dro, e.e. i gefnogi diwrnodau chwaraeon)











Mae'r ddogfen hon yn eiddo i WRAP ac ni cheir ei atgynhyrchu na'i ailddefnyddio heb ganiatâd.


# Ateb – gwastraff bwyd

Mae rheoli gwastraff bwyd a'i gynnwys wedi cael ei ystyried yn dda, gyda threfniadau hyblyg yn cael eu defnyddio mewn gwahanol leoliadau yn yr ysgol.

Yn y prif ffreutur, sy'n cael ei fonitro yn ystod egwyliau, mae biniau a chadis yn cael eu gadael ar agor i gynorthwyo gwaredu 'heb ddwylo'. Yn y brif ardal paratoi bwyd, mae biniau wedi'u hôl-osod i agor â phedalau, unwaith eto er mwyn rheoli hylendid yn well. Mewn ystafelloedd dosbarth lle paratoir bwyd, mae biniau bach hyblyg ar waith, gan fabwysiadu'r cynllun lliw safonol unwaith eto.

Gan fod yr ysgol yn rheoli ei harlwyo ei hun, gan gynnwys cyflenwadau, gellir gwneud penderfyniadau'n uniongyrchol ar ba luniaeth sydd ar gael i'w gwerthu, gan ystyried gwneud ailgylchu pecynwaith yn hawdd.















**O'r chwith i'r dde, o'r top i'r gwaelod:**

- Cadi bwyd wedi'i leoli'n amlwg yn y ffreutur i'w ddefnyddio gan ddisgyblion
- Biniau mewnol yn y ffreutur gyda chaeadau agored i gynorthwyo defnydd gan ddisgyblion
- Detholiad o ddiodydd ar gael i'w prynu yn y ffreutur: pecynwaith un deunydd, hawdd ei adnabod fel deunydd ailgylchadwy
- Mae gan y biniau sydd wrth ymyl ardal paratoi bwyd y ffreutur bedalau traed – i gynnal hylendid
- Mae gorsafoedd dŵr ail-lenwi wedi'u lleoli ledled yr ysgol, gan annog defnyddio poteli ailddefnyddiadwy
- Enghraifft o gadi gwastraff bwyd mewn ystafell ddosbarth paratoi bwyd

Mae'r ddogfen hon yn eiddo i WRAP ac ni cheir ei atgynhyrchu na'i ailddefnyddio heb ganiatâd.

# Ateb – diwylliant ac arweinyddiaeth

Mae diwylliant o gymryd perchnogaeth dros reoli gwastraff, sbwriel ac ailgylchu wedi'i wreiddio o'r top i lawr. Pan fo athrawon yn gofyn am finiau yn eu hystafelloedd, a ganiateir trwy eithriad, nhw sy'n gyfrifol am eu rheoli a'u gwagio, gan gynnwys y pennaeth.

Mae tîm gweithrediadau'r safle yn cynnal casgliadau sbwriel bob dydd am 11:20am ar ôl egwyl y bore. Gwelir y pennaeth yn aml yn codi sbwriel ac mae'r tîm arweinyddiaeth yn weladwy trwy rota patrolau safle dyddiol.

Mae patrwm sifftiau gwasgarog i'r 3 aelod o'r tîm gweithrediadau safle yn golygu bod monitro'n digwydd yn barhaus. Mae problemau'n cael eu datrys yn gyflym a defnyddir teledu cylch cyfyng ar y safle i gasglu tystiolaeth a llywio camau dilynol.

Mae llinellau cyfrifoldeb a disgwyliadau yn glir. Anfonwyd dau lythyr 'newidiadau ailgylchu' penodol at rieni / gofalwyr ym mis Ebrill a mis Medi 2024, ynghyd â chyflwyniad mewn gwasanaeth ym mis Medi 2024 i gyd-daro â'r newid system.




**Darlun:** Arfbais yr ysgol

Ysgol Gyfun Porthcawl
Porthcawl Comprehensive School

Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU

THE BUSINESS OF RECYCLING WALES

WRAP CYMRU

# Effaith – canlyniadau

**Mae gan y compowndiau gwastraff allanol fwy o finiau ailgylchu na biniau gwastraff cyffredinol bellach ac nid yw'r ysgol yn anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi**



**Cyfradd ailgylchu fisol a gyflawnir yn gyson**

**40-45%**

**Cyfradd ailgylchu alldro blwyddyn 1***

**54.25%**

**Arbedion £ mewn biliau gwastraff misol (o gymharu cyn ac ar ôl Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle)**

**tua 30%**

**Nifer y biniau ewro allanol (1100l) ar gyfer gwastraff cyffredinol wedi lleihau o**

**7 i 3**

* Gwelir cynnydd mawr i lefelau ailgylchu ym mis Gorffennaf oherwydd clirio ystafelloedd dosbarth (papur)

# Effaith – cymeradwyaeth

Fel safle ysgol mawr, gyda thuag ugain o adeiladau gwahanol, roedd angen llawer o gynllunio logistaidd a chyfathrebu. Cafodd pwysigrwydd ailgylchu ei gyfleu'n glir ac yn gyson i bob grŵp blwyddyn drwy wasanaethau difyr, gan sicrhau bod pob dysgwr yn deall nid yn unig sut mae'r systemau'n gweithio, ond pam eu bod nhw'n bwysig. Roedd y staff yn cymryd rhan i'r un graddau, a'r prosesau'n cael eu rhannu, eu trafod a'u mireinio ar y cyd gyda'r nod o greu diwylliant unedig, sy'n ymwybodol o'r amgylchedd.

Cyfathrebwyd yn rheolaidd â chartrefi disgyblion i sicrhau dealltwriaeth gyffredin. Mae ailgylchu yn ffocws parhaus a rheolaidd yn yr ysgol a chyda chyfanswm o 1350 o ddisgyblion a staff ar y safle bob dydd rydym yn falch o'r cyfrifoldeb a rennir a'r camau gweithredu ar y cyd rydym wedi'u cymryd i gefnogi cynaliadwyedd.

**"Yn Ysgol Gyfun Porthcawl, rydym yn falch iawn o'n hymrwymiad i gyfrifoldeb amgylcheddol trwy ddatblygu a chyflwyno system ailgylchu gynhwysfawr. Mae wedi bod yn ddull ysgol gyfan: mae pob aelod o'r gymuned – disgyblion, staff, arweinwyr, llywodraethwyr – wedi chwarae rhan mewn gwreiddio arferion cynaliadwy yn ein harferion dyddiol."**

**Mike Stephens**
Pennaeth

Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU
THE BUSINESS OF RECYCLING WALES
WRAP CYMRU

# Chwaraewch eich rhan mewn ffordd gylchol o fyw

Gweithredwch heddiw ar astudiaeth achos
Ysgol Gyfun Porthcawl 2026

Canllawiau ar gyfer y sector addysg